**Dyddiad:** **20 Mawrth 03**
**Amser:** **9.00am - 12.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **BALCHDER BRO – Pride of Place: Y Cynllun Treftadaeth Lleol yng Nghymru**

# *BALCHDER BRO* – Pride of Place,

## Y Cynllun Treftadaeth Lleol yng Nghymru

Nod ***Balchder Bro*** yw herio a sbarduno cymunedau i ystyried beth sy'n gwneud eu hamgylchedd a'u treftadaeth lleol yn arbennig.

Gyda nawdd sylweddol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, bydd y cynllun yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCC) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae Cymdeithas Adeiladu y Nationwide hefyd yn cyfrannu nawdd ychwanegol. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r WDA gan obeithio y byddant hwythau'n ymuno â'r bartneriaeth.

Bydd y cynllun yn annog a galluogi pobl leol mewn cymunedau ledled Cymru i ddeall, mwynhau, cofnodi, diogelu, adfer a dathlu nodweddion unigryw eu treftadaeth, cymuned ac amgylchedd lleol. Mae ***Balchder Bro*** yn cydnabod bod dyfodol treftadaeth leol yn dibynnu ar ymwybyddiaeth, diddordeb, brwdfrydedd a chymhelliant pobl leol i werthfawrogi a gofalu am eu treftadaeth. Nod ***Balchder Bro*** yw darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gymunedau yng Nghymru i sicrhau bod gan bobl yr hyder, y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i ddiogelu dyfodol eu treftadaeth leol.

- Diogelu neu adfer asedau treftadaeth leol
- Gwella mynediad cyhoeddus at, a dehongli, safleoedd neu arteffactau eu treftadaeth leol
- Cofnodi a chyflwyno hanes llafar, arferion neu draddodiadau
- Rheoli asedau treftadaeth leol fel menter gymunedol er budd cymdeithasol ac economaidd
- Hyrwyddo ymdeimlad o falchder a lle gyda hunaniaeth leol gan gwmpasu nodweddion naturiol, adeiledig/hanesyddol, archeolegol, diwydiannol, diwylliannol neu hamdden

## Faint o nawdd all *Balchder Bro* ei ddarparu?

Roedd y cynllun peilot yn cynnwys naw prosiect cymunedol a dderbyniodd £18,000 yr un. Rydym yn awr yn gobeithio lansio cynllun mwy gyda 500 o gymunedau o bob cwr o Gymru'n cymryd rhan, gyda chyllideb o £10 miliwn. Bydd y grantiau a fydd ar gael i brosiectau yn werth rhwng £3,000 a £25,000

## Pwy all wneud cais am nawdd?

- Cyrff democrataidd lleol gan gynnwys Cynghorau Cymuned, Cymdeithasau Preswylwyr a Grwpiau Tenantiaid

- Grwpiau diddordeb, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Dinesig Trefi, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Gwirfoddolwyr Cadwraeth, Ffermwyr Ifanc

  Grwpiau Hanes Lleol, Hanes Naturiol, Eglwysi a Chapeli, grwpiau Chwaraeon a Mwynderau

- Grwpiau cymdeithasol, gan gynnwys Grwpiau Mamau a Babanod, Grwpiau Chwarae, Ysgolion, Merched y Wawr, Sefydliad y Merched

  y Lleng Brydeinig, Clybiau Rotari/Cylchoedd Merched, Lion's Club, Clybiau Ieuenctid, Urdd Gobaith Cymru

- Grwpiau economaidd gan gynnwys mudiadau cydweithredol pentrefi, Fforymau Busnes, Siambrau Masnach a grwpiau masnachwyr

Ar hyn o bryd mae'r cynllun peilot yn cael ei gynnal yn Nyffryn Dyfrdwy, Dinas Abertawe ac ardal y Mynydd Du. Rydym yn gobeithio lansio'r cynllun Cymru gyfan yn gynnar yn 2004.

## Tair Enghraifft o'r Cynllun Peilot

### Llwybr Treftadaeth Cefn Mawr

Cafodd Cymdeithas Gymunedol Cefn, Rhosymedre a Chefnbychan (Newbridge) ei sefydlu ym 1997, un o dair cymdeithas a ffurfiwyd gyda nawdd y Cynllun Datblygu Strategol (SDS), mewn ardal o amddifadedd economaidd cymharol gyda hanes o ddatblygiadau diwydiannol cynnar.

Mae'n ardal sy'n gyforiog o gysylltiadau hanesyddol, gyda nifer o safleoedd treftadaeth adnabyddus gerllaw, ond ar hyn o bryd mae'r ardal yn dioddef o ddiffyg canolbwynt, ac mae'n ddigon anffodus i fod yn ynys yng nghanol atyniadau sy'n denu ymwelwyr ar droed (Llwybr

Clawdd Offa), camlas, ac yn eu ceir, er ei bod wedi ei hamgylchynu gan atyniadau pwysig, megis y ddyfrbont, parc gwledig Ty Mawr, Erddig a Llangollen. Ceir digon o atyniadau posibl yn lleol, gan gynnwys olion diwydiannol cynnar, a chymuned ddosbarth gweithiol.

Deilliodd y syniad o greu llwybr treftadaeth lleol o brosiect garddio llwyddiannus. Datblygwyd y syniad mewn cyfarfod agored a gynhaliwyd i drafod syniadau yn gynnar yn 2001, gyda nifer calonogol yn cymryd rhan, gan gynnwys Groundwork ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Y cam nesaf oedd ffurfio grwp llywio, gyda pherson lleol yn ei gadeirio.

Mae gan y prosiect nodau tymor byr, canolig a hir.

**Y Tymor byr:** tacluso'r llwybr ar yr "American hill" a chodi byrddau dehongli.

**Y Tymor canolig:** marcio mannau o ddiddordeb, e.e. safleoedd ôl-ddiwydiannol, prosiect balast. Annog pobl ifanc i gymryd rhan a dysgu sgiliau newydd megis codi waliau cerrig sych a thrin gwrychoedd a fydd yn nodwedd ar ochr y llwybrau.

**Y Tymor hir:** creu taith gerdded gron a fydd yn cynnwys parc gwledig Ty Mawr a llwybr treftadaeth ddiwydiannol Cefn. Hefyd, ystyrir y posibilrwydd o adfer ty teras o'r 19G i'w gyflwr gwreiddiol fel atyniad i ymwelwyr.

Mae cam cyntaf y prosiect yn cynnwys adolygiad o agweddau hanesyddol, diwylliannol a hanesyddol yr ardal, gyda'r nod o ddewis pa ffordd y dylai'r llwybr treftadaeth ei ddilyn a chasglu gwybodaeth i'w defnyddio ar fyrddau gwybodaeth cyhoeddus a phamffledi hamdden. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan arbenigwyr a gomisiynwyd yn dilyn proses dendro, a bydd yn cynnwys adroddiadau cynnydd a gaiff eu trafod mewn cyfarfodydd agored o drigolion lleol. Dylai fod wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2003.

**Meithrin Myddfai**

Mae hon yn gymuned fechan o tua 168 o gartrefi, mewn ardal wledig iawn. Mae poblogaeth y plwyf oddeutu 500-600.

Daeth y syniad i sefydlu'r prosiect yn sgil pryderon a fynegwyd am y bygythiad i draddodiadau lleol, nodweddion diwylliannol a'r Gymraeg yn yr ardal sydd (fel llawer o'r Gymru wledig) wedi profi cryn newid mewn poblogaeth ac adleoliad 'newydd-ddyfodiaid', sydd wedi arwain at ymdeimlad o 'ddirywiad' lleol a cholledion cymdeithasol. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a thraddodiadau lleol ymhlith pobl leol a mewnfudwyr, er mwyn hybu integreiddio cymunedol trwy gyfrwng rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys sgyrsiau ac arddangosiadau o grefftau a sgiliau, a dyma'r mathau o weithgarwch a fyddai wedi cael ei gynnal yn y gorffennol gan diwtoriaid allanol neu'r WEA ond nad ydynt bellach yn gymwys i dderbyn cefnogaeth fel gweithgareddau 'addysgol' (h.y. galwedigaethol).

Yng ngeiriau un o'r prif symbylwyr, "mae'r angen i ddiogelu adeiladau a bywyd gwyllt ayb bellach yn cael ei gydnabod fel rhywbeth pwysig dros ben ond nid oedd pobl yn teimlo bod y rhain mewn perygl ym Myddfai. Fodd bynnag, roedd agweddau o'n traddodiadau nad oedd mor weladwy â hynny yn cael eu hystyried fel bod mewn perygl o ddiflannu am byth."

Mae'r prosiect, *Menter Meithrin Myddfai*, yn waith grwp o bobl leol sy'n gweithio ar eu pen eu hun, a heb ffurfio partneriaeth ffurfiol gydag asiantaethau eraill eto. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan athro ysgol lleol, sy'n amlwg yn y gymuned Gymraeg leol. Yn unol â thraddodiad, penderfynwyd peidio ffurfio pwyllgor, yn hytrach mae croeso i bawb, ac anogir y mewnfudwyr i gyfrannu. Gobeithir cynnig hyfforddiant mewn sgiliau cyfieithu i aelodau o'r gymuned, gan y bydd y cyfarfodydd yn ddwyieithog. Mae nifer o ddigwyddiadau eisoes wedi eu cynnal, gan gynnwys Noson Lawen a ddenodd 120 o bobl. Mae cynlluniau ar droed i lwyfannu drama gan bobl ifanc. Gan fod y grwp bellach yn gallu hyrwyddo gweithgareddau o'r fath, mae'n ymddangos ei fod yn awr yn dechrau ehangu ei orwelion ac mae'n ystyried meithrin cysylltiadau newydd gyda grwpiau eraill.

Tynnwyd lluniau a recordiwyd y digwyddiadau gyda chamera fideo; mae cyfarfod wedi ei drefnu i drafod ffyrdd o ddefnyddio'r recordiadau. Maent wedi prynu'r enw parth ‘myddfai.net’ ynghyd â meddalwedd i greu gwefan gymunedol ar gyfer y pentref, ac mae'r gwaith wedi cychwyn i ddatblygu hyn.

**Prosiect Bws Abertawe**

Mae'r prosiect hwn yn gyfrifol am adfer arteffact 'diwydiannol', sef Bws Routemaster, sydd wedi ei addasu i'w ddefnyddio'n lleol (i fynd o dan bontydd rheilffordd isel), ac sy'n olygfa gyfarwydd i drigolion hyn yr ardal. Mae gan Amgueddfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru gasgliad o tua dwsin o fysiau eisoes. Hyd yn hyn nid oes dim ar y tu allan i'r adeilad i awgrymu ei fod yn amgueddfa. Mae'r amgueddfa'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr lleol sy'n trefnu dyddiau agored yn achlysurol. Mae'r bysiau'n cael eu defnyddio i yrru plant gydag anableddau ar dripiau, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu trefnu ar y cyd gyda rheilffordd wedi ei hadfer sy'n galluogi'r plant i deithio adref ar yr hen injan stêm. Ar ôl clywed am ei fodolaeth mewn iard sgrap yn ne Lloegr, penderfynodd yr Amgueddfa y byddai'n hoffi ychwanegu'r 'Bridgemaster' at eu casgliad. Cawsant wybodaeth am *Balchder Bro* gan Gyngor Gwirfoddol Dinas Abertawe, a oedd wedi eu helpu i ddod o hyd i wirfoddolwyr i'r amgueddfa yn y gorffennol.

Mae cefnogaeth *Balchder Bro* wedi galluogi'r amgueddfa i dalu am adfer y Bridgemaster, gyda chymorth peirianwyr proffesiynol: bydd y grwp ei hun yn gyfrifol am wneud y gwaith ar gorff a thu mewn y bws, gyda chymorth myfyrwyr coleg addysg bellach lleol. Maent hefyd wedi meithrin cysylltiadau gydag adran gelf y coleg addysg bellach, sy'n bwriadu paentio murlun ar waliau allanol yr amgueddfa.

Yn ystod ei daith i Gymru i gael ei drwsio a'i adfer, cafodd y bws ei barcio am rai oriau ym maes parcio un o archfarchnadoedd Abertawe, ac yn ystod y cyfnod byr hwnnw bu tua chant o bobl yn ei weld ac yn tynnu ei lun.

## Ble Nesaf?

Mae Cymru wedi bod yn gymharol dda am edrych ar ôl ei phrif asedau treftadaeth, h.y. cestyll ayb. Yr hyn a fu ar goll oedd y modd i gymunedau ddathlu yr hyn sy'n unigryw am dreftadaeth eu cymunedau. Mae'n ymddangos bod proffil y bobl enwocaf yn hanes Cymru yn isel iawn yn y cymunedau a gysylltir â hwy. Meddylier am gyn lleied sydd yng Nghorwen i ddathlu cysylltiadau Owain Glyn Dwr â'r dref, neu Hywel Dda â Hendy Gwyn ar Daf neu Richard Trevithick â Merthyr.

Nod Balchder Bro yw cwrdd â'r angen hwn trwy alluogi cymunedau i redeg cynlluniau cyfan fel a amlinellir uchod neu i gyfrannu nawdd at brosiectau llawer ehangach. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda ‘Bro Llewelyn’ a ‘Trevithick 2004’ gyda golwg ar y dyfodol.

Mae grymuso cymunedol yr un mor bwysig â threftadaeth i Balchder Bro ac rydym yn awyddus sicrhau bod help ar gael i bob cymuned beth bynnag fo'u cefndir. Mae'r broses o wneud cais i rai cynlluniau grant mor gymhleth fel nad yw nifer o grwpiau yn trafferthu. Ein nod ni yw symleiddio'r ffurflenni cais a darparu cyngor ymarferol i sicrhau bod hyd yn oed y cymunedau mwyaf difreintiedig yn gallu gwneud cais.

Nid ydym yn enwog yng Nghymru am wneud y defnydd gorau posibl o'n treftadaeth na'n diwylliant i ddibenion economaidd. Dyna un peth y mae Balchder Bro yn annog cymunedau i'w wneud.

Un peth a all achosi problemau yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Er gwaethaf adroddiad canmoladwy gan y sawl a fonitrodd y cynllun peilot (Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Bangor) rydym wedi cael awgrym eu bod yn ailystyried ariannu'r prif brosiect. Nid ydym ar ein pen ei hunain yn hyn o beth; mae'r rhaglen gyfatebol yn yr Alban wedi clywed pethau tebyg. Mae'r damcaniaethu ynghylch y rhesymau am hyn yn amrywio o wleidyddiaeth fewnol y Gronfa Dreftadaeth i ostyngiad yn y nawdd maent yn ei dderbyn oddi wrth y Loteri.

O gofio bod y rhaglen gyfatebol yn Lloegr, The Local Heritage Initiative, bellach yn weithredol ac wedi cael sêl bendith y Gronfa i barhau am o leiaf bedair blynedd, byddai'n anffodus a dweud y lleiaf pe bai pobl Cymru'n cael eu hamddifadu o gyfle tebyg.